O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 443 (Cy. 106)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i fan i'r gogledd o Gyfnewidfa Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mawrth 2019* |
| *Yn dod i rym* | *8 Mawrth 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i fan i'r gogledd o Gyfnewidfa Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 8 Mawrth 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn ei dangos.

**Atal Dros Dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mawrth 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Cyfnewidfa Coryton hyd at bwynt 2.1 cilometr i'r gogledd o'r ffordd ymuno hynny.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Coryton sy'n ymestyn o bwynt 120 o fetrau i'r gogledd o Gylchfan Coryton hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf sy'n ymestyn o bwynt 105 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r A4054 hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd.